Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Safleoedd tirlenwi

dalen ffeithiau

Mae safle tirlenwi'n un o'r mannau ble'r aiff gwastraffau er mwyn eu gwaredu yn y pendraw. Mae'r ddalen ffeithiau hon yn rhoi gwybod i chi ynghylch safleoedd tirlenwi a'r rôl mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei chwarae er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel.

1.Beth yw safle tirlenwi?

Mae safle tirlenwi'n llain o dir a ddefnyddir er mwyn gwaredu sbwriel, naill ai'n uniongyrchol ar y ddaear neu drwy lenwi twll yn y ddaear. Er enghraifft, defnyddir chwarel nas defnyddir mohoni fel safle tirlenwi'n aml. Bydd awdurdodau lleol a diwydiant yn cludo gwastraffau i safleoedd tirlenwi.

Mae tri math o safle tirlenwi gweithredol, a ddosbarthir yn ôl y mathau o wastraff yr awdurdodir nhw i'w cymryd. Maent fel a ganlyn:

a) **Gwastraffau anweithiol**. Mae'r safleoedd hyn yn cymryd gwastraffau anweithiol yn unig fel gwastraffau cloddio. Cânt effaith isel ar yr amgylchedd. Mae gwastraffau anweithiol yn annhebygol o adweithio â gwastraffau eraill.

b) **Gwastraffau diberygl**. Mae'r safleoedd hyn yn cymryd cymysgedd o wastraff anweithiol a gwastraffau bioddiraddadwy. Gallant, yn ogystal, gael eu caniatáu i wneud darpariaeth arbennig ar gyfer rhai mathau o wastraff peryglus, fel asbestos.

c) **Gwastraffau peryglus**. Mae'r safleoedd hyn yn cymryd gwastraffau peryglus fel priddoedd wedi'u halogi ac asbestos.

2. Beth sy'n digwydd mewn safle tirlenwi?

Mae'r rhan fwyaf o wastraffau diberygl yn diraddio'n raddol mewn safle tirlenwi.

Wrth iddynt wneud hyn maent yn cynhyrchu nwy, a elwir yn syml yn nwy tirlenwi. Fel bod dŵr glaw yn treiddio i lawr drwy'r safle tirlenwi ffurfir hylif, a elwir yn drwytholch. Rhaid echdynnu a thrin nwy tirlenwi a thrwytholch yn ddiogel.

3.Pam fod angen safleoedd tirlenwi arnom?

Cynhyrchir oddeutu 300 miliwn tunnell o wastraff bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr ac mae angen rheoli'r cyfan ohono mewn dull sy'n diogelu pobl a'r amgylchedd.

Er caiff peth o'r gwastraff hwn ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu - ac mae'r ganran yn codi drwy'r amser - mae'n dal i fod angen gwaredu rhywfaint ohono. Yn ogystal ag ailddefnyddio ac ailgylchu mae technegau a thechnolegau eraill yn cael eu datblygu er mwyn lleihau faint o sbwriel a anfonir i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu ynni o wastraff trwy ei losgi neu trwy ei dreulio'n anerobig.

4.A yw safleoedd tirlenwi'n ddiogel?

Ydynt. Rhaid i bob safle tirlenwi weithredu heb achosi llygredd i'r amgylchedd neu niwed i iechyd pobl. Rheolir nhw'n ofalus er mwyn cadw'r peryglon i isafswm.

Deallwn y peryglon posibl i'r amgylchedd o safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag nid ydym yn arbenigwyr meddygol ac felly byddwn yn ymofyn am gyngor a gwybodaeth a ddarparir gan weithwyr iechyd proffesiynol wrth ddod i benderfyniadau ynghylch y peryglon i iechyd oddi wrth y safleoedd tirlenwi a reoleiddiwn. Gofynnwn wrth ymddiriedolaethau gofal cynradd yn Lloegr a byrddau iechyd lleol yng Nghymru i gyflawni eu rôl yn gyson fel ymgynghoredigion statudol trwy ddarparu eu barn arbenigol ynghylch ceisiadau i weithredu safle tirlenwi.

Mae hyn yn unol â chyfarwyddyd a ddarparir gan yr Asiantaeth Gwarchod Iechyd. Os oes gennych chi bryderon ynghylch effaith safleoedd tirlenwi ar eich iechyd, dylech gysylltu â'ch Meddyg Teulu (GP), eich ymddiriedolaeth gofal cynradd neu eich bwrdd iechyd lleol.

5. Pa ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweithgarwch safle tirlenwi?

Rhaid i unrhyw un sy'n gweithredu safle tirlenwi fod â chaniatâd amgylcheddol er mwyn gwneud hyn. Rhaid i weithredwyr safleoedd tirlenwi gydymffurfio nawr â'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ynghylch Tirlenwi Gwastraff, y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr 2010) a nifer o gyfarwyddebau ychwanegol. Mae rheoliadau eraill yn gymwys yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.

Mae rheoliadau'n gosod safonau ar gyfer lleoli, dylunio, monitor a gweithredu safleoedd tirlenwi.

Pan ddaw'n amser i gau'r safle, rhaid i'r gweithredwr gytuno gyda ni sut maent yn mynd i wneud hyn a chytuno cynllun ar gyfer ei fonitro a'i reoli. Gelwir hyn yn ôl-ofal. Bydd yr ôl-ofal yn parhau nes ein bod yn fodlon nad oes unrhyw berygl i'r amgylchedd. Gall ôl-ofal bara am 100 mlynedd a mwy.

6. Beth mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei wneud?

Ein gwaith ni yw rheoleiddio safleoedd tirlenwi a sicrhau na chant fawr ddim effaith ar yr amgylchedd.

Pan gynigir safle tirlenwi, mae'r awdurdod cynllun lleol yn ymgynghori â ni ynghylch cais cynllunio. Byddwn ni'n sicrhau fod unrhyw safle tirlenwi newydd mewn ardal sy'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd. Byddwn yn gwirio'r cynnig yn erbyn ein polisi gwarchod dŵr daear, ymhlith pethau eraill. Rhaid i weithredwr y safle tirlenwi wneud cais i ni am ei ganiatâd amgylcheddol er mwyn agor a gweithredu'r safle tirlenwi. Byddwn yn gwirio fod y gweithredwr wedi asesu'r peryglon a ph'un ai y gall eu rheoli ai peidio. Byddwn yn ymgynghori â chyrff eraill ynghylch y cais, a'i hysbysebu i'r cyhoedd ar ein gwefan.

Byddwn yn penderfynu p'un ai i ganiatáu neu wrthod y cais. Byddwn yn ei wrthod os nad yw'n bodloni gofynion amgylcheddol, technegol neu gyfreithiol.

Cyfrifoldeb y gweithredwr yw rheoli'r safle. Pan fod safle'n gweithredu byddwn yn ei archwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn amodau'r caniatâd.

Rydym yn sicrhau fod y gweithredwr yn cymryd gwastraff addas yn unig, nad yw dŵr gerllaw yn cael ei lygru ac nad yw niwsans fel arogleuon, gwastraff yn chwythu o amgylch y safle, sŵn a fermin fel gwylanod yn effeithio ar gymunedau yn yr ardal. Os nad yw'r gweithredwr yn cydymffurfio ag amodau'r caniatâd byddwn yn cynghori ynghylch gwelliannau angenrheidiol, neu gallwn orfodi'r caniatâd trwy roi rhybudd, cyflwyno hysbysiad sy'n diddymu caniatâd neu drwy erlyn y gweithredwr.

7. Pa gyrff eraill sy'n gyfrannog?

Yr awdurdod lleol sy'n penderfynu trwy'r broses cynllunio p'un ai i ganiatáu i safle tirlenwi gael ei ddatblygu. Mae'n gwirio'r angen am y safle yn erbyn cynlluniau gwastraff ac yn gosod amodau ynghylch maint, lleoliad a gwaith adfer. Ni allwn roi caniatâd oni bai fod gan y safle ganiatâd cynllunio. Bydd arbenigwyr iechyd cyhoeddus, ymddiriedolaethau gofal cynradd yn Lloegr a byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn cynghori ynghylch yr effaith bosibl o amlygiad ar iechyd.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad. Rydym yn hysbysebu'r cais am ganiatâd mewn papurau newydd lleol ac ar ein gwefan, ac rydym yn gofyn i'r gymuned leol, y cyngor a sefydliadau iechyd cyhoeddus am eu barn nhw. Mae pa sefydliadau eraill rydym yn ymgynghori â nhw'n dibynnu ar fanylion y cais unigol, fel ei leoliad, ond gallai gynnwys, er enghraifft, byrddau carthffosiaeth a chwmnïau dŵr, awdurdodau porthladdoedd a physgodfeydd, Natural England, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch. Fel rheol bydd ymgynghoriadau'n para am 28 diwrnod.

8. Sut fedraf i fod yn gyfrannog pan gynigir safle newydd?

Gallwch ddatgan eich barn mewn ymgynghoriadau cynllunio a chaniatáu. Argymhellwn fod gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn trefnu digwyddiadau cysylltu â'r safle rheolaidd. Yma cewch glywed sut gall camau'r datblygiad effeithio arnoch chi, a'r camau a gymerir er mwyn atal llygredd neu niwed. Gallwch gysylltu'n uniongyrchol â'r gweithredwr am wybodaeth.

9. Sut fedraf i gwyno am niwsans o safle tirlenwi gweithredol?

Dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r gweithredwr er mwyn cwyno. Rydym ni'n gwirio i weld sut ymdrinnir â chwynion a ph'un ai y rhoddir ateb boddhaol er mwyn cydymffurfio â'r caniatâd.

10. Sut fedraf i ganfod mwy ynghylch safle tirlenwi sy'n lleol i mi (un sy'n gweithio neu wedi cau)?

Rydym yn cadw gwybodaeth ynghylch safleoedd tirlenwi ar ein cofrestr gyhoeddus, Gallwch weld y cais, ymatebion ymgynghori, y caniatâd, cofnodion monitro ac adroddiadau cydymffurfio. Rydym yn cadw'r gofrestr yn eich swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd leol. Mae eich awdurdod lleol yn cadw'r un manylion cofrestr gyhoeddus â ni.

Daethom yn gyfrifol am ganiatáu gweithrediadau safleoedd tirlenwi ym 1974. Ers hynny bu angen trwydded ar bob safle tirlenwi ac ers 1994 mae'n ofynnol iddynt wneud cais ffurfiol i ni er mwyn ildio eu caniatâd. Byddwn yn cadw pob cofnod ar gyfer y safleoedd hyn, yn electronig neu mewn archifau papur.

Gall eich awdurdod lleol ddal ffeiliau safle ar gyfer safleoedd tirlenwi a roddasant y gorau i weithredu cyn 1974, er nad oes sicrwydd o hyn.

Er mwyn canfod eich swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd agosaf, galwch ein canolfan cenedlaethol cysylltiadau cwsmeriaid ar 08708 506 506 (Llun-Gwener, 8yb-6yp) neu ymwelwch â'n gwefan yn www.environment-agency.gov.uk/contactus.

Bydd eich swyddfa leol yn gallu dweud wrthych sut i edrych ar ein cofnodion.

Gallwch ganfod rhif eich awdurdod lleol yn ein llyfr ffôn lleol.

Beth arall fedra'i ei wneud?

Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu neu gompostio cymaint o'ch sbwriel cartref ag y gallwch. Gofynnwch i'ch cyngor lleol am gyfleusterau ailgylchu yn eich ardal. Ceir mwy o wybodaeth, yn ogystal ynghylch ymdrin â gwastraff ar ein gwefan fel y manylir isod.

Gwybodaeth arall

Gallwch ganfod llawer o wybodaeth ar ein gwefan neu drwy chwilio ar y rhyngrwyd.

Er enghraifft ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd gallwch weld gwybodaeth gyffredinol ynghylch gwastraff a safleoedd tirlenwi yn ein hadrannau 'cartref a hamdden' a 'busnes a diwydiant'. Cyfeiriad ein gwefan yw www.environment-agency.gov.uk.

Gallwch weld mapiau o safleoedd tirlenwi ger eich cartref trwy ddilyn y cysylltau i "Beth sy'n fy iard gefn".

Neu gallwch ein galw ni ar 08708 506 506* 8yb-¬6yp, Dydd Llun i Ddydd Gwener.
Anfonwch neges e-bost atom yn

enquiries@environment-agency.gov.uk

*Mae galwadau yn ystod y dydd ar ddiwrnodau gwaith i rifau 0870 yn costio 8c, plws hyd at 6c y funud o BT Weekend Unlimited. Gall prisiau darparwyr ffonau symudol a darparwyr eraill amrywio. Os ydych yn drwm eich clyw, mae croeso i chi alw ein gwasanaeth minicom ar 08702 422 549.

Cyhoeddwyd Mai 2010